Y Ddarpariaeth : Mewn Ffocws

Asesiad o'r ddarpariaeth hyfforddiant presennol yng **Nghymru**



Facilitated by
Summit SKILLS
Y Cyngor Sgiliau Sector ar gyfer Gwasanaethau Adeiladu Peirianneg

HORIZON
the sector skills agreement
for building services engineering

Rol Y Sector Mewn Hyfforddiant

Cyfeiriwch at yr adroddiad Asesiad Llawn o Flaenoriaethau Presennol i weld y manylion y tu Ôl i'r crynodebau hyn. Mae rhifau'r argymhellion a'r rhestri o flaenoriaethau hefyd yn gysylltiedig â'r adroddiad llawn.

Barn cyflogwyr ar y defnydd o ddarparwyr hyfforddiant

- O'r holl hyfforddiant a gyflwynwyd, gwneir 35% drwy golegau AB, 40% darparwyr hyfforddiant preifat, 11% gweithgynhyrchwyr, 13% prifysgolion ac 1% cyfanwerthwyr. Mae rhan fwyaf y cyflogwyr yn defnyddio mwy nag un darparwr.
- Nid yw meysydd fel hyfforddiant gweithgynhyrchu yn ychwanegu at sylfaen gymwysterau ffurfiol y sector.
- Mae Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru (FfCChC) yn ddull o adnabod ac achredu'r hyfforddiant a'r datblygu sgiliau gwerthfawr hyn er mwyn iddo allu cyfrannu at sylfaen sgiliau'r sector.

ARGYMHELLIAD 4:
Mae angen i SummitSkills weithio gyda thîm FfCC i sicrhau bod hyfforddiant gweithgynhyrchu yn cael ei rwydo ac yn cyfrif tuag at gymhwyster sector ehangach. Hefyd mae angen datblygu sicrwydd ansawdd i weithgynhyrchwyr a chyrsiau nad ydynt yn seiliedig ar gymwysterau gan ddarparwyr hyfforddiant preifat. Blaenoriaeth tymor canolig.

Cyflogwyr yn barod i dalu am hyfforddiant

- Yn Nadansoddiad Summitskills o Anghenion y Sector, mae 99% o gyflogeion Cymru yn ystyried Lefel 3 fel y safon ar gyfer y sector.
- Dim ond 28% o fusnesau fyddai'n fodlon talu mwy am eu hyfforddiant
- Bydd angen cryn berswâd ar y sector i gyllido mwy nag y maent yn ei wneud eisoes.
- Gallai pryderon am ansawdd darparwyr hyfforddiant ychwanegu at y diffyg parodrwydd hwn.
- Yng Nghymru, mae'r Gronfa Sgiliau yn y Gweithle (Gogledd Cymru) a'r Gronfa Datblygu'r Gweithlu (De Cymru), yn cynnig peth cymorth ariannol i gwmnïau. Mae rhai rhwystrau i'w goresgyn er mwyn ymgysylltu mwy o gyflogwyr â'r broses.

ARGYMHELLIAD 5:
Mae'n hanfodol sicrhau bod y cwricwlwm a'r strwythur hyfforddiant yn gywir er mwyn i gyflogwyr allu gweld budd a gwerth hyfforddiant. Bydd Summitskills yn gweithio'n agos â phartneriaid a'r rhwydwaith darparu hyfforddiant er mwyn datblygu'r maes hwn. Blaenoriaeth byr dymor.

Gwariant cyflogwyr ar hyfforddiant prentisiaethau

- Mae SummitSkills wedi creu model 'gwaith ar waith' sy'n edrych ar gost cyllido prentis, ac eithrio ffioedd cwrs, yr amser a ddyrennir i fentora a'r gwario ar hyfforddiant mewnol.
- Mae symiau sylweddol o arian (yn yr achos hwn drwy gyfrwng amser cyflogai) yn cael eu gwario ar fentora mewnol drys gydol y rhaglen hyfforddiant.
- Mae llawer o gostau cudd yn gysylltiedig â hyfforddi staff ac mae cyflogwyr eisoes yn gwneud cyfraniad sylweddol.

ARGYMHELLIAD 7:
Bydd SummitSkills yn datblygu'r modelau hyn ymhellach er mwyn asesu cyfanswm costau hyfforddiant i gyflogwyr ac yn defnyddio'r wybodaeth hon i weithio gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru i gyflawni cydbwysedd synhwyrol rhwng cyfraniadau cyflogwyr a'r llywodraethwyr at hyfforddiant. Blaenoriaeth tymor canolig.

Safbwynt cyflogwyr ar ansawdd y ddarpariaeth hyfforddiant

- Ar y cyfan mae mwy o anfoddhad gydag ansawdd y gwasanaeth a'r addysgu a ddarperir gan addysg bellach na gyda darparwyr hyfforddiant preifat. Mae'r prif faterion yn ymwneud â chyfathrebu, ansawdd yr addysgu, adnoddau a chynllunio'r cwricwlwm yn gyffredinol.

ARGYMHELLIAD 12:
Bydd SummitSkills a'i bartneriaid yn gweithio gyda darparwyr ar draws Cymru i wella ansawdd gweinyddu ac addysgu'r cyrsiau hynny, er mwyn mynd i'r afael â materion gwasanaeth gwael gan ddarparwyr. Blaenoriaeth byr dymor.

Barn cyflogwyr ar gynnwys y ddarpariaeth hyfforddiant

- Ystyrir cynnwys y cymwysterau yn benodol fel rhywbeth sydd wedi dyddio mewn rhai achosion neu heb fod yn ddigon addas ar gyfer anghenion y sector. Mae angen cynnal a diweddaru cymwysterau yn rheolaidd.
- Mae'r cwricwlwm i dechnegwyr yn ymddangos yn foddhaol, er y ceir pryder bod rhai o'r deunydd a ddysgir yn rhy arbenigol ac wedi dyddio. Mae natur cyffredinol cyrsiau HNC/D yn tynnu oddi wrth anghenion arbenigol cyflogwyr.
- Mae SummitSkills eisoes wedi dechrau mynd i'r afael â rhai o'r materion hyn fel rhan o Strategaeth Cymwysterau'r Sector.

ARGYMHELLIAD 13:
Bydd SummitSkills yn gweithio gyda'r cyrff sy'n gyfrifol am gymwysterau i ddiweddaru'r cymwysterau presennol yn unol â gofynion y sector, er mwyn mynd i'r afael â chynnwys anaddas yn y cwricwlwm. Byddai hyn hefyd yn cynnwys datblygu cynnwys newydd i gwrdd ag anghenion mewn meysydd fel technolegau amgylcheddol i gefnogi gweithredu Polisi Ynni Cymru. Blaenoriaeth tymor canolig i hir dymor.

Y Ddarpariaeth Ei Hun

Rhesymoli'r nifer o gyrsiau a chymwysterau

- Mae cyrsiau hyfforddiant a chymwysterau yn y system ar hyn o bryd nad ydynt wedi'u cyllido (ac felly tybiwn nad ydynt yn cael eu cynnal) ers cyfnod sylweddol o amser.
- Oherwydd nad oes galw wedi bod ar gyfer y cwricwlwm hwn awgrymwn nad yw bellach yn berthnasol i'r sector.
- Drwy leihau nifer y cymwysterau a'r cyrsiau nad oes eu hangen ar gyflogwyr, gallwn ganolbwyntio ar y rheiny sy'n cwrdd â gofynion yn sector yn wirioneddol.

ARGYMHELLIAD 1:
Mae SummitSkills yn argymell bod y cwricwlwm a nodwyd yn cael ei ddileu o ddata'r cwricwlwm y mae Cymru yn seilio ei model cyllido arno, lle nad yw'r ddarpariaeth wedi derbyn cyllid yn ystod y tair blynedd academaidd ddiwethaf. Blaenoriaeth byr dymor.

Cyllid ar gyfer tystysgrifau technegol nad ydynt yn cwrdd â gofynion cyflogwyr

- Mae swm sylweddol o gyllid yn cael ei gyfeirio at dystysgrifau technegol annibynnol, sy'n cynnig cymhwyster seiliedig ar theori and heb unrhyw brofiad sy'n seiliedig ar waith.
- Fel arfer nid yw pobl sy'n ymgymryd â thystysgrif dechnegol yn llawn amser yn cael eu cyflogi yn y sector, ac nid oes llawer o gyfle ganddynt ennill profiad seiliedig ar waith fyddai'n eu caniatáu i ennill Cymhwyster Galwedigaethol Cenedlaethol.
- Ystyrir tystysgrifau technegol gan gyflogwyr fel sgil nad yw'n werthfawr yn economaidd, a'u bod yn methu â chwrdd â'u hanghenion busnes.
- Gellir ailgyfeirio adnoddau sy'n cael eu gwario ar hyn o bryd ar hyfforddiant tystysgrifau technegol annibynnol i ddatblygu darpariaeth mewn meysydd fel technolegau amgylcheddol, datblygu busnes a phrentisiaethau i oedolion.

ARGYMHELLIAD 2:
Dylid cyllido tystysgrifau technegol fel rhan o brentisiaeth fframwaith lawn neu fel rhan o Gymhwyster Galwedigaethol Cenedlaethol yn unig. Dylid dileu'r holl gyllid ar gyfer tystysgrifau technegol fel cymhwyster annibynnol. Bydd SummitSkills yn gweithio gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru a phartneriaid i sicrhau bod y cynnig hwn yn gweddu i'r agenda cyfiawnder cymdeithasol i Gymru, yn cynnwys ei Gynllun Gweithredu Sgiliau a Chyflogaeth. Blaenoriaeth byr dymor.

Darpariaeth Hyfforddiant Addysg Uwch

- Mae nifer bach o sefydliadau addysg uwch yn cynnig cyrsiau peirianneg gwasanaethau adeiladu. Mae'r nifer bach hwn wedi'u gwasgaru yn anwastad ar draws y DU.
- Ni dderbyniodd unrhyw sefydliadau addysg uwch yng Nghymru fyfyrwyr ar gyfer cyrsiau yn y sector yn 2003 a dim ond un sefydliad, Prifysgol Morgannwg, ddechreuodd dderbyn myfyrwyr yn 2004.
- Mae hyn yn broblem i fyfyrwyr y mae angen iddynt ennill cymwysterau proffesiynol ochr yn ochr â'u gwaith.
- Gydag un SAU yn unig yn gweithio yn y sector peirianneg gwasanaethau adeiladu yng Nghymru, mae hyn yn cyfyngu ar y cyfle i gynnal ymchwil i gefnogi'r sector, yn enwedig ym maes technoleg newydd ac ynni adnewyddadwy, a masnacheiddio canlyniadau.

ARGYMHELLIAD 3:
Mae angen datblygu rhwydwaith cynaliadwy o ddarparwyr SAU sy'n cynnig cyrsiau gradd ac isradd ar draws Cymru i helpu i gau'r bwlch rhwng gweithredwyr ac ymgynghorwyr yn y sector. Bydd SummitSkills yn gweithio gyda phartneriaid SAU Cymru i weithredu egwyddorion strategaeth addysg uwch i Gymru ar draws y sector. Blaenoriaeth tymor canolig.

Gwariant ar y ddarpariaeth hyfforddiant

- Mae swm sylweddol o'r gwariant presennol ar ddarpariaeth hyfforddiant yn arwain at sgiliau nad ydynt yn werthfawr yn economaidd ac felly nid yw'n berthnasol i'r sector. Yn yr achosion hyn, mae SummitSkills wedi cyfrifo lle y gellid ailddosbarthu arian i hyfforddiant a chymwysterau mwy perthnasol eraill.
- Yn seiliedig ar ddadansoddiad o'r cyllid presennol ar gyfer sgiliau nad ydynt yn werthfawr yn economaidd, mae o bosib tua £3.4 miliwn ar draws Cymru y gellid ei ailddosbarthu i ddarpariaeth hyfforddiant y mae angen mawr amdani mewn rhannau eraill o'r sector, fel technolegau amgylcheddol (paneli solar, paneli ffotofoltaidd er enghraifft), rheoli busnes, meincnodi, rheoli cadwyni cyflenwi a phrentisiaethau i oedolion.

ARGYMHELLIAD 6:
Bydd SummitSkills yn gweithio gyda phartneriaid a rhanddeiliaid ar draws Cymru i geisio defnydd mwy effeithiol o gyllid er mwyn cynyddu cynhyrchedd, perfformiad a lefelau sgiliau yn y sector. Blaenoriaeth tymor byr.

Nodau Safon/Dyfarniadau Darparwyr

- Mae gan Gymru ddeuddeg darparwr â dyfarniadau BMP, mae tri yn meddu ar y Cymhwyster Matrics ac mae gan ddau ddyfarniadau Yn Gadarn o Blaid Pobl Anabl.
- Mae un darparwr yn meddu ar nod safon ISO:9000 ac mae dau yn meddu ar Nod Safon Cymru.
- Mae lle i fwy o ddarparwyr ennill nodau ansawdd.

ARGYMHELLIAD 11:
Bydd SummitSkills yn gweithio gyda darparwyr i gynyddu'r nifer sy'n ennill nodau safon. Os bydd mwy o ddarparwyr yn ennill y safonau hyn yna dylai godi llinell sylfaen ansawdd cyffredinol darpariaeth y sector. Blaenoriaeth byr dymor i dymor canolig.

Proffil Dysgwyr

Amrywiaeth

- Mae rhan fwyaf y bobl sy'n ymuno â'r sector o hyd yn ddynion gwyn. Mae'r sefyllfa hon yn waeth mewn perthynas â lleiafrifoedd ethnig ar gyrsiau dysgu seiliedig ar waith lle mae nifer sylweddol lai o bobl o grwpiau lleiafrifol ar gyrsiau dysgu seiliedig ar waith nac ar dystysgrifau technegol/wedi'u cyllido gan AB.
- Er gwaethaf cyflwyno mentrau a mecanweithiau amrywiol er mwyn annog grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli i ymuno â'r sector, ymddengys na chafwyd llawer o effaith.

ARGYMHELLIAD 8:
Bydd SummitSkills yn parhau i weithio gyda phartneriaid a rhanddeiliaid i gynyddu ymgysylltiad menywod a lleiafrifoedd ethnig o fewn y diwydiant drwy hwyluso llwybrau cynnydd arloesol i mewn i'r sector. Blaenoriaeth tymor canolig i hir dymor.

Dull cyflwyno ac oed cyfranogwyr ar gyrsiau'r sector

- Mae nifer sylweddoli o ddysgwyr nad ydynt mewn cyflogaeth, yn oedolion ac yn bobl ifanc 16–19 oed, sydd ar dystysgrifau technegol y mae'r sector o'r farn eu bod yn arwain at sgiliau nad ydynt yn werthfawr yn economaidd (NEVS).

ARGYMHELLIAD 9:
Mae SummitSkills yn dymuno gweithio gyda phartneriaid, yn cynnwys yr Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol, i leihau nifer fawr y cyrsiau NEVS ac yn hytrach datblygu llwybrau mynediad a chynnydd cynaliadwy i mewn i'r sector i nifer llai o ddysgwyr statws anghyflogedig. Blaenoriaeth tymor canolig i hir dymor.

Sgiliau Sylfaenol i Oedolion

- Nid oes gan 25% o oedolion 16–65 oed sgiliau llythrennedd lefel 1 mewn Saesneg, ac nid oes gan 21% o'r boblogaeth sy'n siarad Cymraeg sgiliau llythrennedd yn y Gymraeg
- Nid oes gan 53% o oedolion 16–65 oed sgiliau rhifedd lefel 1.
- Mae ymwybyddiaeth o faterion sgiliau sylfaenol yn y gweithlu ar draws y sector yn isel.
- Mae siarad, gwrando, darllen, ysgrifennu a rhifedd yn allweddol i bob galwedigaeth ar draws y sector.

ARGYMHELLIAD 14:
Bydd SummitSkills yn gweithio gyda'r Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol a chyflogwyr i gefnogi ac annog newydd-ddyfodiaid a chyflogeion presennol y sector, i wella eu sgiliau sylfaenol ar gyfer datblygiad personol ac i wella cynhyrchedd y sector. Blaenoriaeth byr dymor i dymor canolig.

Yr Iaith Gymraeg

- Defnyddir yr iaith Gymraeg ar draws y sector mewn cwmnïau a gyda chwsmeriaid felly mae angen cael safonau galwedigaethol a deunyddiau dysgu yn y Gymraeg ac yn Saesneg.

ARGYMHELLIAD 15:
Mae SummitSkills yn parhau i ddatblygu a gweithredu ei gynllun iaith Gymraeg drwy ymgynghori â rhanddeiliaid allweddol a Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Blaenoriaeth tymor canolig i hir dymor.

SummitSkills
Vega House, Opal Drive,
Fox Milne, Milton Keynes MK15 0DF

T: 01908 303960
F: 01908 303989
www.horizon-ssa.org.uk
email enquiries@summitskills.org.uk

sgiliau
AR GYFER BUSNES